**Grant Amddifadedd Disgyblion.**

Eleni mae 4 disgybl yn yr ysgol sydd yn derbyn PYD. Mae hyn tua 3.4% o'r disgyblion i gyd eleni sydd yn gosod yr ysgol yn y grwp meincnodi cyntaf.

Y llynedd roedd y ganran ychydig yn uwch - Teulu a chanran PYD – C1 – 7.7%.

Derbyniwyd grant GAD o £9,450 ar gyfer cefnogi'r disgyblion yma.

Plentyn 1 – PMD + DAT ac yn cael cymorth dwy gymorthydd y dydd oherwydd ei broblemau ymddygiadol – hyn yn dod allan o arian y CBADY.

Plentyn 2 – Wedi ymuno a'r ysgol o ddalgylch arall dros ddwy flynedd yn ôl ac yn derbyn cymorth ar GY+ ac efo problemau ymddygiadol ac ar retinol yn ddyddiol.

Plentyn 3 – Wedi symud yma o ysgol gyfagos ac ar gam gweithredu GY+.

Plentyn 4 – wedi cychwyn yn ysgol Pont y Gof ac nid yw ar y gofrestr ADY ac yn ddisgybl galluog yn ei dosbarth.

**Defnydd o'r arian GAD**

| Gweithredu | Gwariant | Effaith |
|---|---|---|
| Buddsoddi mewn hyfforddiant darllen Dyfal Don car gyfer cymorthydd oedd yn gweithio yn yr ysgol. | £300 | Cymorthydd yn gymwys i roi sesiynnau 1:1 i ddisgyblion PYD ac ADY er mwyn codi ei hyfrededd mewn darllen.Y disgyblion sydd yn cael cymorth yn gwneud cynnydd. |
| Cyflogi cymorthydd am 20 awr yn ychwannegol i'r ysgol. | | Disgyblion PYD ac ADY yn derbyn sylw. |
| Hyfforddi cymorthydd i fynd ar gwrs Dyfal Donc Rhifedd. | £300 | Disgyblion ac oediad mewn rhifedd yn derbyn sesiynnau rheolaidd er mwyn codi eu hyder a'u hyfrededd yn y maes. |
| Athrawes ADY yn cymryd grwpiau o dddisgyblion ac yn rhoi cymorth iddynt ar ageddau sydd yn codi o'r CAU. | £1000 (Cyfraniad at arian ADY yr ysgol sydd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r disgyblion) | Disgyblion PYD yn cael sylw mewn grwpiau bach gyda'u cyfoedion unwaith yr wythnos. |